Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Parc Wern**

**Cartref Gofal Parc Wern**
**Ffordd Parklands**
**Rhydaman**
**SA18 3TD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Parc Wern

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | PARKCARE HOMES LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 59 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 2 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae gan gartref Parc Wern dîm sefydledig o nyrsys a gweithwyr gofal. Ers yr arolygiad diwethaf, mae rheolwr newydd wedi cael ei benodi. Mae'r staff yn gadarnhaol am y cymorth sydd ar gael o fewn y tîm a'r cymorth y maent yn ei gael gan y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol.

Mae'r lefelau staffio yn cyfateb i'r lefelau a nodir yn y Datganiad o Ddiben, gan ystyried lefelau dibyniaeth y bobl sy'n byw yng nghartref Parc Wern. Mae staff asiantaeth rheolaidd yn ategu niferoedd y staff pan fo angen. Mae gwaith recriwtio yn mynd rhagddo. Rhoddir gofal a chymorth mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn unol â chynlluniau personol y bobl. Gwnaed gwelliannau i'r broses adolygu, gyda'r bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses hon ac yn cyfrannu ati.

Mae gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud yn y cartref, yn cynnwys addurno; mae cynlluniau ar waith i osod carpedi a dodrefn newydd yn ystafelloedd gwely'r bobl a'r ardaloedd cymunedol. Mae angen gwella'r arferion atal a rheoli heintiau er mwyn sicrhau y caiff gofal ei roi mewn modd diogel ac i safon sy'n cynnal llesiant y bobl.

Er y bu gwelliannau mewn perthynas â hyfforddiant arbenigol a chynnal sesiynau goruchwylio unigol; mae angen i'r trefniadau ar gyfer cynnal sesiynau goruchwylio unigol rheolaidd fod yn gyson ar gyfer pob aelod o'r staff. Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau fel sy'n ofynnol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda, drwy ymweld â'r cartref yn rheolaidd a chadw mewn cysylltiad â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghartref Parc Wern, ac sy'n ymweld ag ef.

## Llesiant

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt ac maent yn teimlo'n rhan o'u cymuned. Mae gwybodaeth ar gael yn y cartref am ddigwyddiadau sydd i ddod fel gemau pencampwriaeth rygbi'r chwe gwlad a chynlluniau ar gyfer dathliadau Sul y Mamau. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi mwynhau gweld cyngherddau yn dychwelyd. Mae'r clwb garddio wedi bod wrthi'n plannu eginblanhigion. Mae dyddiadur misol o ddigwyddiadau cymdeithasol ar gael. Dywedodd un teulu wrthym *"Activities are fantastic – X really enjoys the concerts and we had a Valentines afternoon tea"* a "*There are a lot of activities and things going on for residents and their families".*

Mae gan y bobl lais ac mae eu hamgylchiadau personol yn cael eu hystyried. Caiff adborth gan y bobl ei gofnodi mewn 'cofnodion eich llais'. Caiff dymuniadau'r bobl eu hadlewyrchu ar hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni'. Mae'r cydgysylltwyr gweithgareddau yn cynnal grŵp sgwrsio lle y gwrandewir ar syniadau'r bobl a rhoddir cynlluniau ar waith.

Mae gwybodaeth am ddiogelu ar gael i bawb yng nghartref Parc Wern a chaiff y wybodaeth ei harddangos ar hysbysfyrddau. Mae polisi manwl cyfredol ar gael. Mae'r staff yn mynychu'r hyfforddiant gofynnol. Mae'r staff yn ymwybodol o'r camau i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon am ddiogelu. Yn gyffredinol, mae cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac ymwelwyr, er nad oedd hyn yn gyson ym mhob rhan o'r cartref. Mae angen gwella arferion atal a rheoli heintiau. Caiff y canllawiau ar ymweliadau eu haddasu yn asesiad risg y gwasanaeth er mwyn ystyried statws COVID-19 yn y cartref.

Caiff y bobl eu cefnogi i wneud dewisiadau am agweddau ar eu gofal a'u bywyd o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys dewisiadau o ran prydau bwyd. Trafodir anghenion a gofynion deietegol yn ystod cyfarfodydd dyddiol, y mae'r cogydd yn bresennol ynddynt. Dywedodd y cogydd wrthym *"The choice is theirs – they can have what they want".* Hyrwyddir dewis mewn perthynas â gofal ac arferion dyddiol, er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau personol y bobl eu cyflawni. Mae'r darparwr yn parhau i weithio tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg drwy sicrhau bod mwy o ddogfennau'r gwasanaeth ar gael yn Gymraeg, gosod arwyddion yn y cartref a chofnodi dewis iaith y bobl yn eu dogfennau gofal. Clywsom y Gymraeg yn cael ei siarad os mai dyna oedd dewis iaith y bobl.

Gwelwyd rhyngweithio ystyrlon rhwng y staff a'r bobl. Gwelsom lefel barchus o hiwmor ynghyd ag enghreifftiau o ryngweithio gofalgar iawn. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac maent yn eu trin fel unigolion ac yn dangos parch tuag atynt. Wrth helpu'r bobl i gael ymyriadau gofal, gwelsom y staff yn dangos empathi tuag at y bobl ac yn ystyried eu teimladau. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym, "*We work in their home and respect their privacy and dignity".*

## Gofal a Chymorth

Caiff atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol eu gwneud mewn modd amserol a'u cofnodi'n dda mewn dogfennau gofal. Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn gywir ac yn gyfredol. Maent yn llywio'r gofal a roddir er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau'r bobl eu cyflawni. Mae'r dogfennau gofal ategol fel siartiau lleoli a chofnodion deietegol yn gyfredol ac yn dangos sut y caiff anghenion deietegol y bobl eu diwallu ac y caiff iechyd croen ei gynnal. Mae'r cynlluniau personol a phroffiliau un dudalen y bobl ar gael i'r staff. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am gefndir y bobl, eu teulu, eu hanes gwaith a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Darperir gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwelwyd gwelliannau mewn perthynas â'r broses adolygu. Caiff y bobl a'u cynrychiolwyr eu gwahodd i gyfarfod chwarterol lle caiff eu cynlluniau personol eu hadolygu. Cedwir cofnodion manwl o'r adolygiadau a chaiff y cynlluniau personol eu diweddaru'n briodol.

Roedd y teuluoedd yn gadarnhaol iawn am y gofal a'r cymorth a roddir yng nghartref Parc Wern, gan ddweud wrthym:
*"The staff are really good – genuinely interested and always make time for the residents no matter how busy they are" "It has been like a breath of fresh air since we have got here. Its brilliant – I can't fault the staff"* ac *"Overall level of care is high".*

Mae'r lefelau staffio sydd ar waith yn adlewyrchu dibyniaeth y bobl ac maent yn unol â'r hyn a nodir yn Natganiad o Ddiben y gwasanaeth. Cadarnhaodd y darparwr fod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i gefnogi'r tîm pa fo angen a bod hynny'n sicrhau parhad gofal i'r bobl. Mae gwaith recriwtio parhaus yn mynd rhagddo.

Mae gan y gwasanaeth systemau diogel ar gyfer rheoli meddyginiaethau, ynghyd â pholisi meddyginiaeth cynhwysfawr. Gwelsom arferion diwyd wrth roi meddyginiaethau, gyda'r staff yn ystyried diogelwch ac arferion atal a rheoli heintiau, ac yn bod yn amyneddgar wrth ystyried anghenion unigol y bobl. Roedd hyn eisoes wedi'i nodi fel rhan o broses archwilio'r cartref. Gwelsom gynlluniau gofal diabetes manwl yn ogystal â chofnodion i ddangos bod adolygiadau meddyginiaeth yn cael eu cynnal fel sy'n ofynnol.

Caiff y bobl eu cefnogi i ddilyn deiet iach ac i yfed digon. Caiff prydau bwyd eu paratoi ar y safle a chafodd y gwasanaeth sgôr hylendid bwyd o 5 ers yr arolygiad diwethaf. Er bod y bobl yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau o ran eu prydau bwyd, dim ond y prif opsiwn a gofnodir ar y fwydlen felly nid yw'n adlewyrchu'r dewis sydd ar gael. Mae hyn yn cael ei adolygu. Dywedodd y cogydd wrthym "*We make so much homemade food – there is always plenty of vegetables and fresh food".* Mae'r adborth ar y prydau bwyd a ddarperir yn cynnwys: "*Food is amazing"; "Excellent food always", "The quality is good but a bit more food would be good"* a *"Quality and variety of food is good".*

## Yr Amgylchedd

Mae Parc Wern yn gartrefol ac yn groesawgar. Dywedodd y teuluoedd wrthym *"Visiting is allowed at any time with good communication from staff"* ac *"We're extremely happy with the care X receives at Parc Wern and the warm welcome we have as visitors".*
Mae'r bobl yn mwynhau treulio amser lle bynnag y mynnant, naill ai mewn lolfeydd cymunedol llai neu yn eu hystafelloedd gwely. Gallant fynd i ardaloedd eraill o'r cartref fel yr ardd yn yr iard, y siop trin gwallt a'r brif lolfa lle caiff digwyddiadau cymdeithasol yn aml eu cynnal.   Ceir rhaglen cynnal a chadw barhaus ac mae gwaith i baentio'r drysau/gwaith pren wedi'i gwblhau yn ddiweddar.  Mae adnodd tracio'r amgylchedd yn dangos y gwelliannau a nodwyd y mae angen eu gwneud a'r amserlen yr anelir ati. Mae hyn yn cynnwys gosod carpedi newydd yn rhai o'r lolfeydd cymunedol.

Mae archwiliadau a rhaglen o brofion cyfnodol o'r cyfarpar yn dangos bod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cwblhau fel sy'n ofynnol. Cynhelir ymarferion tân bob mis ac mae'r asesiad risg tân wrthi'n cael ei ddiweddaru. Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Gwelwyd cofnodion ar gyfer profi'r cyfarpar tân. Mae cofnodion ar gyfer gosodiadau trydanol a diogelwch nwy ar gael ac mae dyddiadau o fewn y 12 mis diwethaf arnynt. Mae'r gwiriadau ar gyfer cyfarpar codi fel teclynnau codi a slingiau yn gyfredol.

Nid yw darparwr y gwasanaeth yn cynnal safonau hylendid cyson ac nid oes ganddo drefniadau priodol ar waith i waredu gwastraff cyffredinol na gwastraff clinigol, er mwyn sicrhau trefniadau digonol o ran hylendid a rheoli heintiau.
Ymdriniwyd ag arferion y staff mewn perthynas â gwisg ar gyfer staff asiantaeth a gwisgo gemwaith 'islaw'r penelin'. Er bod cyfarpar diogelu personol ar gael, ni chaiff gel diheintio ei ailgyflenwi'n gyson pan fo angen. Roedd angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â glendid golchfa a diogelwch y cynhyrchion glanhau ynddi. Er bod eitemau golchi a sychu dwylo ar gael ar y cyfan, nid oedd biniau ar gael yn hawdd bob amser ac nid oeddent yn cynnwys y bagiau gwaredu cywir. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud i ymdrin â meysydd. Roedd archwiliadau wedi cael eu cwblhau ac wedi nodi gwelliannau pellach i'w gwneud. Disgwylir i'r hyrwyddwyr atal a rheoli heintiau a benodwyd yn ddiweddar gael hyfforddiant yn fuan. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cydnabod bod angen penodi Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau yn unol â'r polisi Atal a Rheoli Heintiau. Mae angen cynnal y gwelliannau a wnaed gan y gallai hyn effeithio ar iechyd a llesiant y bobl. Mae tîm Atal a Rheoli Heintiau'r awdurdod lleol yn darparu cymorth yn hyn o beth. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r staff yn ofalus wrth sicrhau y caiff nodiadau gofal cyfrinachol y bobl eu storio'n ddiogel. Gwelsom fod y swyddfeydd yn cael eu cloi pan na fyddant yn cael eu defnyddio.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr brosesau recriwtio cadarn ar waith i sicrhau y caiff staff eu recriwtio'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a geirdaon. Caiff bylchau mewn cyflogaeth eu harchwilio gan y tîm recriwtio. Mae'r staff nyrsio a'r gweithwyr gofal wedi'u cofrestru â chyrff proffesiynol fel sy'n ofynnol. Mae gwaith recriwtio parhaus yn mynd rhagddo er mwyn ceisio sicrhau tîm llawn o staff.

Mae'r bobl yn gadarnhaol am y rheolwr newydd ac am y broses o benodi arweinydd cymorth i'r gwasanaeth. Ceir llinellau atebolrwydd clir ac mae'r staff yn gallu cael gafael ar gymorth.  Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn hygyrch ac yn hawdd mynd atynt, ac mae system ar alwad ar waith ar gyfer cymorth 'y tu allan i oriau'. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod ganddynt gydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd: *“X is really supportive and understanding”; “Stability now we have a manager makes a difference”* a *“The RI is always there and like a safety net”.*

Ers yr arolygiad diwethaf, gwelwyd gwelliannau mewn perthynas â darparu hyfforddiant chynnal sesiynau goruchwylio unigol. Mae pob aelod o'r staff wedi cael sesiwn goruchwylio unigol eleni, ac mae'r rhan fwyaf o'r saff wedi cael y nifer gofynnol o sesiynau goruchwylio unigol dros y 12 mis diwethaf. Mae angen i hyn gael ei fonitro er mwyn sicrhau cysondeb i bob aelod o'r staff. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gofynnol megis Cymorth Cyntaf, Diogelwch Tân, Atal a Rheoli Heintiau a Chodi a Chario, gyda chyfradd gydymffurfio o fwy na 90%. Darperir hyfforddiant arbenigol ychwanegol megis Maeth a Hydradu, Cyflwyniad i Iechyd Meddwl a hyfforddiant ar Ddementia. Mae hyn yn unol â'r Datganiad o Ddiben a chanlyniadau personol unigol y bobl sy'n cael cymorth yng nghartref Parc Wern.

Mae polisïau'r darparwr yn llywio'r gofal a'r arferion, ac maent ar gael ac yn gyfredol. Ni chaiff hysbysiadau am ddigwyddiadau bob amser eu cwblhau mewn modd amserol. Fodd bynnag, rhoddwyd gwybod am ddigwyddiadau a nodwyd ar ôl y digwyddiad. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae systemau ar waith i asesu ansawdd y gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd. Mae adroddiadau chwarterol manwl yn adlewyrchu adborth gan bawb sy'n gysylltiedig â chartref Parc Wern. Caiff digwyddiadau, arferion staff, dogfennau gofal, sesiynau goruchwylio, hyfforddiant a'r amgylchedd eu goruchwylio'n dda. Caiff y trefniadau goruchwylio hyn eu hadlewyrchu mewn adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y

gofal a gynhelir bob chwe mis, ynghyd â throsolwg o'r hyn y mae angen i'r gwasanaeth ei wella neu ei ddatblygu ymhellach.

Adborth pellach a gafwyd yn ystod yr arolygiad:
*“Staff and management go the extra mile not only for residents but their families. Whether this be face to face email or by telephone”* a *“Staff are professional and friendly”.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Nid yw'r darparwr wedi cynnal sesiynau goruchwylio unigol cyson ar gyfer y staff. Ni ddarparwyd hyfforddiant arbenigol sy'n benodol i anghenion unigolyn a'r canlyniadau personol y mae'n dymuno eu cyflawni. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 60 | Nid yw'r darparwr yn rhoi gwybod i reoleiddiwr y gwasanaeth yn gyson am ddigwyddiadau fel sy'n ofynnol. | Newydd |
| 56 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn cynnal safonau hylendid cyson ac nid oes ganddo drefniadau priodol ar waith i waredu gwastraff cyffredinol na gwastraff clinigol, er mwyn sicrhau trefniadau digonol o ran hylendid a rheoli heintiau. | Newydd |
| 16 | Ni chaiff cynrychiolwyr eu gwahodd i adolygiadau'r bobl na'u cynnwys yn eu cynlluniau gofal personol. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 13/04/2023